

Annwyl Cyfarwyddwr

Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan arolygiad AGIC/AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ym mis Tachwedd 2018 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys nifer o ymweliadau ymgysylltu â phobl ifanc ac ymweliadau monitro â meysydd gwasanaeth diogelu a chwynion.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 29 Ebrill 2019.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae trawsnewidiad gwasanaethau cymdeithasol Conwy a'r system rheoli matrices a gyflwynwyd dros ddwy flynedd yn ôl bellach wedi'u hymgorffori'n llawn. O'n gwaith gydag uwch-reolwyr, gwelwn fod gwell eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau a bod hyder yn cynyddu mewn meysydd pwnc. Mae dogfennaeth ar gael yn hawdd pan fyddwn yn gofyn amdani a cheir ymatebion cyson i ymholiadau neu geisiadau am wybodaeth.

Mae uwch-reolwyr yn awdurdod lleol Conwy yn dangos dealltwriaeth dda ar y cyfan o'r cryfderau a'r gwendidau presennol yn eu gwasanaeth. Maent wedi bod yn barod i nodi lle mae unigolion yn gwneud cynnydd wrth gyflawni canlyniadau unigol i bobl yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn ogystal â thimau y mae angen mwy o gymorth arnynt. Mae rhywfaint o hyfforddiant gorfodol wedi cael ei ddarparu a bydd mwy o hyfforddiant wedi'i deilwra yn cael ei gynnig yn dilyn trafodaethau a gweithdy a gynhaliwyd gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Ionawr 2019. Rydym yn annog rheolwyr i sicrhau bod hyfforddiant a disgwyliadau o asesiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a phrosesau cynllunio gofal yn gwneud cynnydd a bod gan bob ymarferydd ddealltwriaeth gadarn ohonynt.

Bydd rheolwyr hefyd am gefnogi ymarferwyr yn eu rôl drwy sicrhau bod templedi cofnodi a fformatau adrodd a ddefnyddir yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan gynnwys y gallu i adlewyrchu canlyniadau personol i'w cyflawni.

Mae agwedd gadarnhaol "gallu gwneud" yn y gwasanaeth. Mae uwch-reolwyr yn hyderus wrth ddatblygu ystod o brosiectau newydd, gan gynnwys menter Maelgwn a'r ganolfan asesu plant, ac maent yn awyddus i ddefnyddio cyllid grant i greu modelau gofal a chymorth newydd i wella canlyniadau i bobl.

- Pobl

Mae adroddiad Cyfranogi ac Ymgysylltu defnyddiol a luniwyd gan yr awdurdod lleol yn helpu i ddangos y gwaith a wnaed i gynnwys pobl yn natblygiad a pherchenogaeth gwasanaethau, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Cyflogir dau swyddog cyfranogi i gefnogi'r gwaith hwn ac maent wedi casglu tystiolaeth dda o bobl yn ymateb i'w hanogaeth i 'gymryd rhan'.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwneud cyfraniad sylweddol at sicrhau bod plant yn cael y safon o wasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion orau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen caniatáu digon o amser i'r swyddogion hyn gyfarfod â phlant a threulio amser yn gwrando ar eu barn. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y gwasanaeth hwn yn cynnwys lle o fewn llwythi gwaith prysur Swyddogion Adolygu Annibynnol i wrando ar blant a rhoi cymorth annibynnol iddynt y mae ganddynt

hawl iddo. Hoffem atgoffa'r awdurdod lleol, ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) gael ei rhoi ar waith yn 2016, fod y gofyniad i Swyddogion Adolygu Annibynnol gymryd safbwynt mwy cyfannol wrth fonitro trefniadau plant yn ymestyn i fonitro achos cyfan y plentyn ac nid ei adolygiad yn unig.

Yn ystod y flwyddyn, clywsom gan blant am y buddion cadarnhaol roeddent yn eu cael drwy fynd i'r grŵp Lleisiau Uchel; roeddent yn amlwg yn mwynhau'r gweithgareddau difyr a'r cyfleoedd i gymdeithasu â'u cyfoedion. Roedd cyfranogiad rheolaidd Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnig cyfle cadarnhaol i gael cysondeb a datblygu cydberthnasau da gyda'r plant. Mae'r ymdrechion i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i'r plant yn sicrhau bod y sesiwn yn boblogaidd.

Dywedodd plant wrthym am yr heriau maent yn eu hwynebu pan fydd eu gweithwyr cymdeithasol yn newid a gwnaethom nodi yn ystod cyfarfodydd her y llynedd fod Conwy wedi gweld nifer fawr o newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Bydd y rheolwyr yng Nghonwy yn awyddus i adolygu sawl gwaith y mae gweithwyr cymdeithasol plant yn newid a sicrhau bod barn y plant yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflwyno.

Mae awdurdod lleol Conwy yn cael peth trafferth i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn golygu nad yw'r cynnig rhagweithiol wedi'i ymgorffori'n llawn eto, ond mae'n uchelgais y mae'r awdurdod lleol yn gweithio tuag ato ac mae'n adrodd bod cynnydd da yn cael ei wneud. Mae cyfleoedd i swyddogion awdurdod lleol Conwy gymryd rhan mewn dosbarthiadau Cymraeg a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu eu defnydd ohoni ar bob lefel.

Cynhaliodd yr awdurdod lleol archwiliad mewnol o gwynion a chanmoliaethau ym mis Ebrill 2019 a nodwyd bod oedi wrth ymateb i gwynion. Gwnaethom edrych ar nifer fach o gwynion yn fanwl yn ystod y flwyddyn gan ganolbwyntio ar amseroldeb ac ansawdd yr ymatebion. Gwelsom fod lle i wella amseroldeb. Fodd bynnag, gwelsom fod barn pobl yn cael gwrandawriad teg a'u bod yn cael ymatebion cynhwysfawr i'r materion roeddent yn eu codi. Gwelsom ein bod yn gallu dilyn llwybr cwynion unigolyn o fewn y system rheoli achosion a bod y cwynion hynny wedi cael eu hystyried yn ofalus er mwyn gwella arfer. Bydd y rheolwyr yn awyddus i gael sicrwydd bod amseroldeb yn cael ei wella yn unol â'r amserlenni a nodir mewn polisi cwynion gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Roedd oedi wrth ymateb i ymholiadau am ddiogelu oedolion o fewn yr amserlen benodol, sef 7 niwrnod, yn is na'r amrediad targed roedd yr awdurdod lleol ei hun yn ei ystyried yn dderbyniol am gyfnod yn ystod y flwyddyn. Ar ôl cydnabod y gostyngiad hwn, cymerodd yr uwch-reolwyr gamau gweithredu adferol er mwyn gwella perfformiad a rhoddwyd gwybod i'r aelodau etholedig. Gwelwyd gwelliant cyflym iawn ym mherfformiad y gwasanaeth. Dylai'r rheolwyr ac aelodau etholedig geisio sicrwydd bod gwaith goruchwyllo ac archwilio gan y rheolwyr yn ddigonol i osgoi gweld sefyllfa debyg eto.

Mae datblygiad canolfannau teuluoedd ar draws ardal yr awdurdod lleol ar gamau cynnar y broses ac mae dwy ganolfan wedi agor. Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau edrych ar werthuso a dylai geisio sicrwydd bod adnoddau gwerthuso a ddatblygir yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl.

Mae heriau darparu a chomisiynu gofal cartref yng Nghonwy yn cael eu rheoli. Mewn hunanwerthusiad diweddar, adroddodd yr awdurdod lleol mai un person yn unig oedd yn aros i ofal cartref gael ei gomisiynu ac nad oedd rhestr aros ar gyfer ailalluogi. Mae hon yn sefyllfa dda i'r awdurdod lleol fod ynddi a bydd am weithio'n galed i'w chynnal.

Adroddodd yr awdurdod lleol yn nogfen Dadansoddiad Ariannol ei Strategaeth Comisiynu Gofal Cymdeithasol mai ychydig dan 66% o gyllideb Conwy sy'n cael ei gwario ar ofal a chymorth a reolir ar hyn o bryd, a chaiff 26% ei gwario ar ymyrryd yn gynnar ac atal. Dros amser, mae'r awdurdod lleol am weld cynnydd mewn gwariant ar ymyrryd yn gynnar ac atal a lleihad mewn gwariant ar ofal a chymorth a reolir. Mae'r cynllun corfforaethol yn cefnogi'r canlyniad 'mae pobl yn iach a gweithgar' a bydd gwasanaethau llesiant Conwy yn allweddol i gyflawni hyn.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi parhau â'i daith wella dan arweiniad y cadeirydd presennol. Mae awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru wedi dweud wrthym am y cymorth cadarnhaol maent wedi'i gael gan awdurdod lleol Conwy a'r ffaith bod gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol yn cefnogi penaethiaid gwasanaethau plant i ddysgu gan ei gilydd a rhannu arfer da.

Mae rheolwyr awdurdod lleol Conwy hefyd yn cyfrannu'n helaeth at Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar wella canlyniadau i blant ac mae'r ymrwymiad i weithio tuag at ymyrryd yn gynharach, lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a gwella arfer gwaith cymdeithasol i blant yng Nghymru, yn amlwg mewn trafodaethau â nhw.

Mae'r arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn gynharach eleni yn dangos bod angen mireinio prosesau ymhellach, er bod tystiolaeth o gynnydd mewn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl.

Mae awdurdod lleol Conwy yn gwneud ymdrechion sylweddol drwy wasanaethau cyffredinol i gefnogi mentrau cymunedol a galluogi pobl i fanteisio ar weithgareddau

cymunedol drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth. Nid yw'n glir a yw'r bobl nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael cymorth gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn cael eu cyfeirio'n gyson i'r gwasanaethau cyffredinol ac yn cael eu cefnogi ganddynt. Mae angen cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth yn well i fynd i'r afael â'r heriau o bwyntiau mynediad gwahanol i wasanaethau cymorth.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Byddwn yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/20 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Byddwn yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys y nifer o weithiau y mae gweithwyr cymdeithasol plant yn newid a gallu Swyddogion Adolygu Annibynnol i gyflawni eu hystod lawn o ddyletswyddau gyda phlant. Byddwn yn ailedrych ar y cynllun gweithredu i wella'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau cymorth yn ystod y gweithgaredd hwn y flwyddyn nesaf.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro

Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn